



NHS  
WALES  
GIG  
CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

## **Penodi Cadeirydd**

**Dyddiad Cau: 9 Mawrth 2017**



**The Commissioner for  
Public Appointments**

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Gwneud cais</b>	<b>3</b>
<b>Atodiad A: Rôl y Cadeirydd</b>	<b>6</b>
<b>Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</b>	<b>10</b>
<b>Atodiad C: Y broses ddethol</b>	<b>12</b>

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd rhaid i'r Cadeirydd newydd ddarparu arweiniad cadarn i'r Bwrdd Iechyd ac arddel gwerthoedd Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-8f7e9f7e35c0/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno'r ffurflen gais a **dwy** ddogfen ategol. Dogfen yn ateb y cwestiynau isod yw'r gyntaf. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Mae'n bosib y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwn. CV llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen y bydd rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Dylech ateb pob cwestiwn a nodir ar ddiwedd yr adran hon yn eich datganiad personol. Wrth ateb y cwestiynau hyn, disgrifiwch beth oedd eich rôl wrth gyflawni'r canlyniad penodol.

Cwestiwn 1 - Rhowch enghraifft, gan ddarparu canlyniadau, o adeg pan rydych wedi rhoi arweiniad strategol ac wedi dangos y gallu i edrych ymlaen i ddatblygu sefydliad sector preifat, cyhoeddus neu'r trydydd sector llwyddiannus.

Cwestiwn 2 - Rhowch enghraifft, gan ddarparu canlyniadau, o adeg pan rydych wedi meithrin perthynas hynod effeithiol ag eraill er mwyn ennyn hyder amrywiaeth o randdeiliaid.

Cwestiwn 3 - Rhowch enghraifft, gan ddarparu canlyniadau, o adeg pan rydych wedi sicrhau bod aelodau bwrdd wedi gweithio gyda'i gilydd drwy gymryd rhan weithredol a dilyn proses gwneud penderfyniadau gadarn a thryloyw.

Cwestiwn 4 - Rhowch enghraifft, gan ddarparu canlyniadau, o ddulliau a ddefnyddiwyd gennych i gymell a datblygu bwrdd i ddiffinio ei rôl a'i chyfrifoldebau i sicrhau perchenogaeth ac atebolrwydd.

Cwestiwn 5 - Rhowch enghraifft, gyda chanlyniadau, o adeg pan rydych wedi defnyddio eich sgiliau cyfathrebu yn glir ac yn gryno wrth ymgysylltu â phobl ar bob lefel.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Cwestiwn 6 - Disgrifiwch eich dealltwriaeth o'r berthynas rhwng dyrannu adnoddau a rheoli a chyflawni blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol cadarn.

Cwestiwn 7 - Disgrifiwch eich gwybodaeth am faterion iechyd ar lefel gymunedol, y Bwrdd Iechyd Lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a'ch dealltwriaeth o'r materion hynny.

### **CV**

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

### **Amserlen fras**

Dyddiad cau:	9 Mawrth 2017
Llunio rhestr fer:	20 Mawrth
Cyfweliadau:	26 Ebrill, 3 a 4 Mai
Dyddiad dechrau:	1 Mehefin 2017, ond gall fod angen cynnal cyfnod cysgodi ymlaen llaw

### **Prif fanylion y swydd**

Lleoliad: Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gwasanaethu cymunedau ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys. Mae pencadlys y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty St Cadocs, Caerllion, lle cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor. Disgwylir i Gadeiryddion fod yn bresennol mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir yn ardal y Bwrdd Iechyd hefyd.

Tâl cydnabyddiaeth a threuliau: £69,840 y flwyddyn. Bydd hawl gennych gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebaw ar gyfer costau teithio a chynhaliadau a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Gellid talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebaw, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Ymrwymiad Amser: Mae swydd Cadeirydd yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o (bymtheg) 15 niwrnod y mis, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae hynny'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

### **Datganiad am Amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

### **Cynllun Gwarant Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anabledau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anabledau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

### Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:-

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Cadeirydd, cysylltwch â Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru neu David Jenkins OBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ffôn: 029 2080 1182 (Dr Goodall) neu 01633 435957 (David Jenkins OBE).

E-bost: [Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk](mailto:Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk) neu [David.Jenkins6@wales.nhs.uk](mailto:David.Jenkins6@wales.nhs.uk)

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ewch i'w gwefan: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/hafan>

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk).

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i [www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus](http://www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Atodiad A

### Rôl y Cadeirydd

**Disgrifiad o'r rôl** Bydd y Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon am berfformiad y Bwrdd ac am ei lywodraethu'n effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled Cymru.

Bydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:-

- **Yn cynnig arweiniad cryf, effeithiol a gweladwy** ar draws ystod eang o gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd; yn fewnol drwy'r Bwrdd ac yn allanol drwy ei gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar lefel ehangach y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n genedlaethol ochr yn ochr â Chadeiryddion Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill;
- **Yn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni'n effeithiol** ar y cyd nodau strategol a gweithredol yr Ymddiriedolaeth drwy fodloni nodau, polisiau ac amcanion llywodraethu strategol;
- **Yn gyfrifol am gynnal** yr ansawdd uchaf o ran safonau ac arferion iechyd cyhoeddus, gan wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd, ynghyd â chanlyniadau i'r cyhoedd a'r cleifion;
- **Yn atebol am berfformiad y Bwrdd Iechyd** ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd ac yn genedlaethol, trwy gytuno ar gynllun cyflawni blynyddol a chynnal gwerthusiad blynyddol o'r llwyddiant yn erbyn y cynllun - yn gyhoeddus gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon;
- **Yn sicrhau bod y Prif Weithredwr yn atebol** am bob un o'i gyfrifoldebau a sicrhau datblygiad Tîm Gweithredol effeithiol sy'n canolbwyntio ar gyflawni a chanlyniadau i'r Bwrdd;
- **Yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid**, yn arbennig Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a Phartneriaid Cymdeithasol, a hefyd gyda chontractwyr gofal sylfaenol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu. Mae hyn yn golygu cydweithio a chefnogi enghreifftiau o gynllunio rhanbarthol a chenedlaethol ochr yn ochr â'r amcanion lleol;
- **Yn rhoi sicrwydd ac yn llywodraethu'r gwaith o ofalu'n briodol am arian cyhoeddus ac adnoddau eraill** y mae'r Bwrdd yn atebol amdanynt drwy weithio gyda'r Prif Weithredwr;
- **Yn rhoi sicrwydd drwy gadarnhau bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei lywodraethu'n effeithiol**, yn unol â'r fframwaith a'r safonau a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru drwy weithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd;

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

- **Mabwysiadu rôl fel llysgennad allanol**, gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus a meithrin hyder y cyhoedd.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Manyleb y Person

Bydd y Cadeirydd yn arddangos y rhinweddau canlynol:-

### Gwybodaeth a Phrofiad

- Deall problemau a blaenoriaethau iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r gallu i ddeall ei rôl a'i waith;
- Y gallu i wneud yr aelodau gweithredol yn atebol am berfformiad, gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd;
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth;
- Dealltwriaeth eang o faterion llywodraethu a sut y mae cymhwyso arferion llywodraethu i waith rheoli corfforaethol a chlinigol ac wrth reoli gwybodaeth.

### Priodoleddau a Sgiliau Personol

- Y gallu i arwain ac ysbrydoli staff, i edrych i'r dyfodol a nodi'r materion allweddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd;
- Sgiliau rhyngpersonol cadarn a digon o ddylanwad personol a hygredd i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol â sgiliau dylanwadu a thrafod cadarn
- Ymrwymiad a phenderfyniad, ynghyd â'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau wedi'u diffinio, er mwyn cyflawni nodau'r tymor hir a'r tymor byr;
- Sgiliau cyfathrebu gwyb, ynghyd â'r gallu i fod yn glir a chryno, a'r gallu i feithrin cysylltiad â phobl ar bob lefel
- Y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan ddangos parch at farn pobl eraill;
- Y gallu i sicrhau bod y bwrdd yn cydweithio'n effeithiol drwy gymryd rhan weithgar yn y broses o wneud penderfyniadau cadarn a thryloyw a chymell a datblygu'r bwrdd i ddiffinio ei rolau a'i gyfrifoldebau i sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd.
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn gadarn.

Rhaid i'r Cadeirydd hefyd ddangos:-

Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt.

### Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn ofynnol ar gyfer y penodiad hwn. Fodd bynnag, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith, a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

### Cyfnod y swydd

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon sy'n pennu hyd y penodiad, a bydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod y Cadeirydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl gydol y cyfnod hwn. Gall unigolyn fod yn Gadeirydd am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

### Atebolrwydd



## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Penodir y Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a bydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet am gynnal ei ddyletswyddau ac am ei berfformiad.

### **Cymorth i Aelodau Anabl**

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r Cadeirydd allu cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.

### **Pwy sy'n gymwys i wneud cais?**

Caiff unigolyn ei ddiarddel o'r penodiad:-

- a. os yw wedi'i gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysydd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
- b. os yw wedi'i wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i greydwyd;
- c. os yw wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig o fewn corff y gwasanaeth iechyd
- d. os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad ef/hi er budd y gwasanaeth iechyd, am iddo/iddi beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo/iddi beidio â datgelu buddiant ariannol;
- e. os yw'n un o gyflogeion corff gwasanaeth iechyd.

Yn amodol ar yr eithriad a nodwyd yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru bod pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG yn cael seibiant heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer Penodiad Cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran dan Gwrthdaro Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015.

### **Gwrthdaro Buddiannau**

Dylech nodi'n arbennig y bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Os cewch eich penodi, rhaid ichi ddatgan y buddiannau hyn. Efallai y rhoddir rhagor o sylw iddynt yn y cyfweiliad. Bydd unrhyw wrthdaro yn cael ei ddwyn i sylw

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon pan fydd yn cael rhestr o'r ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi i ddewis ohoni.

### **Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl i'r Cadeirydd gadw at safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

### **Atodiad B**

### **Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyllideb o ychydig dros £1 biliwn. Cafodd ei sefydlu yn 2009 fel Bwrdd Iechyd Lleol integredig sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu ystod eang o wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac eilaidd i bobl Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol hefyd am weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a gwella iechyd a lles y bobl leol. Gan gyfrif yr amcangyfrif o gleifion sy'n byw yn Ne Powys ac ardaloedd eraill sy'n derbyn gwasanaethau aciwt gan y Bwrdd, mae bron i 600,000 o gleifion yn cael eu gwasanaethu ganddo. Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn comisiynu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cael eu sicrhau trwy gontractau a threfniadau contract â darparwyr o Gymru, Lloegr ac o'r Trydydd Sector.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol dri ysbyty aciwt sy'n darparu amryw o wasanaethau i gleifion mewnlol ac allanol, sef Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd, Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Mae yna hefyd ysbytai a chyfleusterau amrywiol eraill wedi'u lleoli ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyflogi 400 o Ymarferwyr Cyffredinol a Meddygon Teulu Cyflogedig sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o 88 Practis Cyffredinol. Mae 214 o nyrsys practis, 145 o weithwyr cymorth gofal iechyd ac amryw o staff gweinyddol, sy'n cynnwys rheolwyr practisau, gweithwyr derbynfa, ysgrifenyddion a swyddogion TG, yn eu cefnogi. Mae tua 375 o Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol o 79 practis. Mae yna 129 o Fferyllfeydd Cymunedol a 69 o leoliadau Optometreg ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cynnig ystod gynyddol o wasanaethau yn y gymuned yng nghartrefi cleifion, trwy ysbytai cymunedol a thrwy ganolfannau iechyd a chlinigau. Mae yna rai ysbytai cymunedol llai eu maint, a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a chanolfannau iechyd sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i'n dinasyddion yn nes at eu cartrefi.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol hefyd yn darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu cynhwysfawr mewn ysbytai ac yn y gymuned i bobl Gwent a De Powys.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Rôl y Bwrdd

Y tair rôl allweddol sy'n rhan o waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynnig arweinyddiaeth i'r sefydliad yw:-

- Llunio strategaeth
- Sicrhau atebolrwydd trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrhwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy
- Ffurio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad

### Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrhwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

### **Atodiad C**

#### **Y broses ddethol**

Bydd y panel dethol yn asesu eich ffurflen gais o ran eich CV a'ch datganiad personol i benderfynu a ydych yn bodloni meini prawf y rôl, ac a chewch eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a'r cwestiynau a ofynnwyd i chi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru, Julie Rogers, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, GIG Cymru, Jeff Farrar, Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent, Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel, a Dave Street, Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 20 Mawrth 2017 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad yn ystod yr wythnosau sy'n dechrau 26 a 27 Ebrill 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i ail-drefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweiliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rôl. Caiff y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweiliad ragor o wybodaeth ymlaen llaw.

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymhell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall yr Ysgrifennydd ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

### **Ymholiadau**

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk)

### **Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus**

Mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrrff cyhoeddus i sicrhau bod y gweithdrefnau'n deg, agored a thryloyw ac yn seiliedig ar allu. I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Ymarfer, ewch i <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk>

### **Os nad ydych yn hollol fodlon**

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk).

Os ydych yn parhau'n bryderus ar ôl derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod. Cysylltwch â:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus  
1 Horse Guards Road  
Llundain  
SW1A 2HQ  
Ffôn: 0207 271 0849  
E-bost: [publicappointments@csc.gsi.gov.uk](mailto:publicappointments@csc.gsi.gov.uk)